## Cyflwyniad

Ym mis Mai 2020 cafodd cymhwyster newydd Gradd Meistr mewn Addysg ei gymeradwyo i'w addysgu o fis Medi 2021 ymlaen. Bydd saith Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru yn darparu'r cymhwyster, a dim ond yn y system addysg yng Nghymru y bydd ar gael.

Y saith sefydliad addysg uwch partner sydd wedi ymrwymo i'r rhaglen yw:

Prifysgol Abertawe
Prifysgol Aberystwyth
Prifysgol Bangor
Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
Prifysgol De Cymru

## Ymarferwyr ar gam cynnar yn eu gyrfa

Cytunwyd y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol:

- Cefnogi unigolion ar gam cynnar yn eu gyrfa (blwyddyn 3-6 o'u gwaith fel athro) i allu manteisio ar y Radd Meistr o 2021 ymlaen (drwy dalu costau'r cwrs).
- Bydd modd i hyd at 500 o fyfyrwyr ledled Cymru fanteisio ar y Grant yn ystod 2022.
- Bydd myfyrwyr yn gallu cael benthyciad ar ben y grant lle y bo'n addas ar ôl 2023.

Mae'r wybodaeth isod yn nodi'r meini prawf y bydd angen eu bodloni er mwyn bod yn gymwys i fanteisio ar gyllid y Rhaglen. Bydd y sefydliadau addysg uwch yn penderfynu pwy sy'n gymwys yn academaidd, ac yn pennu cyfwerthedd unrhyw gredydau.

## Cymhwystra ar gyfer cyllid - ymarferwyr ar gam cynnar yn eu gyrfa

Y bwriad yw symud tuag at gyllido myfyrwyr Gradd Meistr yn y dyfodol (myfyrwyr sy'n dechrau astudio o 2024 ymlaen) drwy addasu'r cynllun cyllido astudiaethau ôl-raddedig presennol sy'n cael ei weinyddu gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.

Mae'r meini prawf cymhwystra a nodir isod yn perthyn yn benodol i fyfyrwyr sy'n dechrau'r rhaglen Gradd Meistr yn ystod 2022 (gan y byddwn yn parhau i gyllido myfyrwyr drwy'r llwybr hwn a ariannir drwy grant drwy gydol eu hastudiaethau). Mae'n bosibl y bydd meini prawf ychwanegol neu rai gwahanol yn berthnasol i garfannau'r dyfodol.

Rhaglen ran amser yn unig yw hon, ac nid yw ar gael i ddysgwyr rhyngwladol.

Sylwch fod modd i fyfyrwyr nad ydynt yn cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru ymgymryd â'r Rhaglen Gradd Meistr, ond ni fydd modd iddynt fanteisio ar y cyllid penodol dan sylw yma.

## Meini Prawf Cymhwystra - ymarferwyr ar gam cynnar yn eu gyrfa

Rhaid i bob ymgeisydd fodloni gofynion derbyn academaidd y sefydliad addysg uwch. Bydd y prifysgolion yn pennu hyd at 500 o ymgeiswyr ledled Cymru a fydd yn gymwys i gael y grant llawn. Er mwyn bod yn gymwys, rhaid eich bod:

- Yn byw yng Nghymru;
- Wedi cael addysg hyd at lefel gradd neu gymhwyster cyfatebol;
- Â statws athro cymwysedig ac wedi cofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg fel athro ysgol neu fel athro addysg bellach (rhaid cadw'r statws hwn a bod wedi cofrestru â'r Cyngor drwy gydol y rhaglen);
- Wedi'ch cyflogi fel athro gan ysgol a gynhelir yng Nghymru;
- Wedi'ch cyflogi yn y sector addysg bellach fel athro yng Nghymru;
- Wedi'ch cyflogi ar gontract o leiaf 0.4 cyfwerth ag amser llawn. Gall hyn gynnwys athrawon cyflenwi ar gontractau tymor hir, naill ai gydag Awdurdod Lleol, ysgol neu asiantaeth;
- Rhwng blwyddyn 3 a blwyddyn 6 o ymarfer ers cwblhau'r cyfnod sefydlu pan fyddwch yn dechrau'r cwrs;
- Wedi cael eich derbyn/wedi cofrestru ar y Radd Meistr mewn Addysg benodol hon a gynigir gan y saith sefydliad addysg uwch partner, sef:

Prifysgol Abertawe
Prifysgol Aberystwyth
Prifysgol Bangor
Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
Prifysgol De Cymru

- Dylai ymgeiswyr sicrhau cymorth eu Pennaeth/Prifathro, lle y bo'n bosibl;
- Os bydd unigolyn eisoes wedi cael Gradd Meistr pwnc benodol, mae'n dal i fod yn gymwys i wneud cais am gyllid tuag at y rhaglen hon;
- Ni ellir defnyddio'r cyllid hwn tuag at unrhyw gymwysterau Gradd Meistr mewn Addysg eraill a gynigir gan y sefydliadau addysg uwch.

**Amodau cyllido penodol - pob blwyddyn**

Rhaid i bawb sydd am wneud cais am gymorth gydnabod yr amodau cyllido penodol canlynol a chytuno â nhw:

- Drwy dderbyn y cynnig grant hwn, rhaid i athrawon barhau i weithio yng Nghymru, naill ai yn y system addysg a gynhelir neu yn y sector addysg bellach am o leiaf ddwy flynedd ar ôl cwblhau'r rhaglen.
- Ni ddylai ymgeiswyr sy'n cael y cyllid hwn wneud cais am ragor o gymorth cyllido astudiaethau ôl-raddedig drwy'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr.

**Y broses ar gyfer cael y cyllid**

Caiff y grant ei sefydlu rhwng Llywodraeth Cymru a'r sefydliadau addysg uwch sy'n rhan o'r rhaglen. Ni fydd unigolion yn gwneud cais i Lywodraeth Cymru nac i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr am gymorth.